# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI**

Dyddiad ac Amser

**6.00 y.h., DYDD MAWRTH, 19EG MAWRTH, 2019**

Lleoliad

**Ystafell Bwyllgor, Swyddfa'r Cyngor, Ffordd y Cob, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5AA**

Pwynt Cyswllt

**Bethan Adams**

**01286 679020**

**BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD 12/03/19)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Dylan Bullard | Aelod Lleol |
| Cynghorydd Peter Read | Aelod Lleol Abererch |
| Cynghorydd Hefin Underwood | Aelod Lleol |

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Ifor Hughes | Cymdeithas Perchnogion Cyhod Pwllheli a'r Cylch |
| Stephen Tudor | Cynrychioli Clwb Hwylio Pwllheli a Plas Heli |
| David Dewsbury | Cynrychioli Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli |
| Wil Partington | Cynrychioli Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli |
| Andrew Picken | Cynrychioli Siambr Fasnach Pwllheli |
| Cynghorydd Mici Plwm | Cynrychioli Cyngor Tref Pwllheli |
| Alwyn Roberts | Cynrychioli Sefydliad y Bad Achub Pwllheli |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Ioan Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |
| David Williams | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
| Cynghorydd Rob Triggs | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw |
| Dr John Jones-Morris | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog |

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

## 4. COFNODION 4 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2018, fel rhai cywir.

## 5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR 10 - 29

(a) Cyflwyno adroddiad Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.
(b) Cyflwyno adroddiad Rheolwr Harbwr a Hafan Pwllheli.

## 6. ADOLYGIAD HAFAN A HARBWR PWLLHELI

Derbyn cyflwyniad gan yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned.

## 7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I nodi y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 15 Hydref 2019.

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI 16/10/18

**Presennol:** Y Cynghorydd Hefin Underwood (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Peter Read (Is-gadeirydd)

Bborz Ykowski (Cymdeithas Cychod Harbwr Pwllheli), Ifor Hughes (Cymdeithas Perchnogion Cychod Pwllheli a'r Cylch), Michael Sol Owen (Plas Heli), W. A. Partington (Cymdeithas Masnachwyr Morwrol), Cynghorydd Mici Plwm (Cyngor Tref Pwllheli) a Alwyn Roberts (Sefydliad y Bad Achub).

**Hefyd yn bresennol:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Llŷr B. Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned), Keith Williams (Dirprwy Reolwr Hafan Pwllheli) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**Eraill a Wahoddwyd:** Clive Moore (Sefydliad y Bâd Achub) ar gyfer eitem 10 ar y rhaglen.

**Ymddiheuriadau:** David Dewsbury (Cymdeithas Cychod Harbwr Pwllheli), Stephen Tudor (Clwb Hwylio Pwllheli a Phlas Heli) a'r Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet – Datblygu'r Economi).

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Hefin Underwood yn gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2018/19.**

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Peter Read yn is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2018/19.**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**4. MATER BRYS**

Nododd aelod ei fod wedi derbyn cwynion am blastig yn dod i'r wyneb ar draeth Glandon. Eglurodd ei fod wedi cysylltu efo Cyfoeth Naturiol Cymru a'u bod yn nodi mai mater i'r Cyngor ydoedd. Nododd ei fod wedi cysylltu efo'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig cryn amser yn ôl ond bod y plastig yn parhau i ddod i'r wyneb.

Mewn ymateb i'r uchod, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod deunydd wedi ei gladdu ar y traeth pan ddatblygwyd yr harbwr a bod y plastig yn dod i'r wyneb o ganlyniad i erydiad dros y blynyddoedd. Nododd ei werthfawrogiad o waith unigolion a oedd yn glanhau'r traeth. Eglurodd y bwriedir fel man cychwyn i roi deunydd ar ben y plastig er mwyn ei orchuddio, gan gymryd samplau.

Nododd yr aelod bod contractwr am glirio'r slip fel rhan o waith i wella mynediad i'r traeth ac fe allai gynorthwyo efo'r gwaith yma. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n gwerthfawrogi sgwrs efo'r aelod unwaith caiff amserlen y gwaith o wella mynediad i'r traeth ei gadarnhau.

**5. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 20 Mawrth, 2018, fel rhai cywir.

Mewn ymateb i sylwadau gan rhai aelodau, eglurodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y cyhoeddir cofnodion drafft cyfarfodydd y Pwyllgor ar wefan y Cyngor yn eithaf buan ar ôl y cyfarfod, ond fe anfonir copi caled o'r cofnodion drafft i'r Cynghorydd Hefin Underwood ynghyd â cynrychiolwyr Cymdeithas Perchnogion Cychod Pwllheli a'r Cylch a Sefydliad y Bâd Achub.

## 6. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei fod wedi bod yn absennol o'r gwaith am gyfnod o 5 wythnos oherwydd anaf, a'i fod wedi dychwelyd i'r gwaith diwrnod cyn y cyfarfod. Eglurodd mai Rheolwr yr Hafan oedd wedi llunio'r adroddiad a'i fod yn ymddiheuro nad oedd yn gallu bod yn bresennol oherwydd ymrwymiad personol. Nododd bod Dirprwy Reolwr Hafan Pwllheli yn bresennol i ymateb i ymholiadau.

Tywysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yr aelodau drwy'r adroddiad, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Yn dilyn adolygiad blwyddyn ddiwethaf gan Asiantaeth Gwylwyr y Glannau, byddai'r arolygwyr yn ail-ymweld â'r Cyngor yng ngwanwyn 2019. Cynigir adolygiad dilynol ar ddyddiad pan gynhelir cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog lle byddai pob aelod o Bwyllgorau Ymgynghorol Harbwr Gwynedd yn cael eu gwahodd i dderbyn cyflwyniad gan yr arolygwyr ar faterion yn ymwneud â'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd.
- Bod yr archwilwyr wedi nodi sylw bod diffyg lled yn sianel fordwyo'r harbwr. Byddai gwelliannau yn cael eu gwneud o fewn yr adnoddau.
- Yr angen i adolygu lleoliad y cymhorthion mordwyo oedd wrth y morglawdd er mwyn adnabod y lleoliad mwyaf addas.
- O ran materion staffio, yn dilyn adolygiad o staff yn yr Hafan gwnaed newidiadau i oriau rhai swyddi i gyd-fynd â thelerau gwaith. O ganlyniad, nid oedd staff yn bresennol ar ddechrau'r diwrnod nac ychwaith diwedd y dydd. Ni dderbyniwyd cwynion hyd yn hyn.
- Cyfeiriwyd at grynodeb bras o gyllidebau'r Harbwr a'r Hafan a'r sefyllfa ariannol bresennol hyd at ddiwedd yr ail chwarter. Roedd yr hyn a amcangyfrif fel sefyllfa derfynol cyllideb yr Hafan, o ystyried y targedau incwm, yn bositif ac roedd y swyddog yn ffyddiog y byddent yn unol â'r hyn a nodwyd.
- O safbwynt ffioedd a thaliadau arfaethedig yr Harbwr a'r Hafan yn 2019/20, bwriad y gwasanaeth oedd addasu'r ffioedd yn unol â'r gyfradd chwyddiant. Disgwylir am gadarnhad o'r cyfraddau oedd i'w defnyddio. Nodwyd y cynhelir adolygiad manylach o'r ffioedd yn ystod 2019 gan ystyried cynnig cyfnodau llai na blwyddyn megis 3, 6 neu 9 mis. Bydd unrhyw newid yn y drefn gyfredol yn unol ac asesiad risg ariannol.
- Ei fod yn siomedig bod niferoedd deiliaid angorfeydd yn lleihau yn yr Harbwr a'r Hafan ond ei fod yn unol â'r tuedd yn yr holl harbyrau. Nododd ei fod yn ffyddiog y byddai'r niferoedd yn cynyddu o ganlyniad i'r buddsoddiad a wneir yn y gwaith carthu.
- Bod nifer o ddigwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol wedi eu denu a'u cynnal ym Mhwllheli gan Plas Heli Cyf. Llongyfarchodd Plas Heli Cyf gan nodi bod staff y gwasanaeth yn cydweithio efo'r cwmni er budd y gymuned.

Tynnodd cynrychiolydd Cymdeithas Perchnogion Cychod Pwllheli a'r Cylch sylw nad oedd llawer o wahaniaeth yng nghyfanswm y tanwydd a werthwyd yn yr Hafan yn y flwyddyn ariannol gyfredol o ystyried y tywydd. Ymhelaethodd mai dim ond drwy gerdyn y gellir talu am danwydd yn yr Hafan a ddim efo arian parod, dylid edrych i mewn i'r posibilrwydd o gyflwyno peiriannau hunanwasanaeth.

Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod trefniadau ar y gweill i osod cyfleuster hunanwasanaeth ar gyfer pwmp tanwydd petrol i Gei Petrol yr Hafan. Byddai'r pwmp tanwydd Disel yn parhau fel gwasanaeth gan weinydd yn unig am y tro oherwydd y gofyniad deddfwriaethol ar gwsmeriaid i lenwi datganiad wrth brynu disel coch.

Rhannodd gynrychiolydd Plas Heli ddogfen a oedd yn dangos Grwyn y Crud yn ei ffurf wreiddiol. Nododd yr angen i'w ymestyn yn sylweddol er mwyn arall gyfeirio deunydd i draeth Abererch. Nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod gwaith i atgyweirio Grwyn y Crud wedi ei gynnwys yn y Strategaeth Garthu. Eglurodd y byddai'n rhaid gwneud gwaith modelu amgylcheddol pe bwriedir ei ymestyn ac oherwydd yr amser a'r gost a fyddai'n ynghlwm a hyn, fe wneir y gwaith atgyweirio angenrheidiol.

Nododd cynrychiolydd Cymdeithas Masnachwyr Morwrol bod y sianel yn fas ac yn llawer mwy cul o gymharu â'i ffurf yn wreiddiol. Ychwanegodd ei fod yn anodd mynd a chychod i mewn ac allan ger ei fusnes yn enwedig pan fo'r llanw yn mynd ar draws.

Mewn ymateb i sylw nad oedd golau ar bostyn tiwb sgaffald yng ngheg yr harbwr, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y bwriedir gwneud cais i Dŷ'r Drindod i ddiddymu'r marc.

Holodd aelod pryd byddai'r Gwasanaeth yn cael cadw cyfran o'r gyllideb yn hytrach na'i drosglwyddo i gyllidebau canolog y Cyngor, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn y flwyddyn ariannol nesaf byddai lleihad yn nharged incwm yr Hafan ond mai dros dro yn unig oedd hyn.

Nododd cynrychiolydd Cymdeithas Perchnogion Cychod Pwllheli a'r Cylch ei fod ar ddeall bod amod mewn lle mai ond pan roedd yr Hafan yn llawn neu pan gynhelir digwyddiadau ym Mhlas Heli y byddai'r pontwns ym Mhlas Heli yn cael eu defnyddio. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yr angen yn ddelfrydol i gefnogi gweithgareddau yn yr harbwr yn ei gyfanrwydd.

Nododd y cynrychiolydd ei fod yn gefnogol i Plas Heli ond nid ar draul trethdalwyr lleol. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod gofyn i Plas Heli Cyf gyflwyno ffioedd arfaethedig i'r Cyngor. Nododd bod Plas Heli yn ymestyn yr ystod o gyfleusterau ar gael ym Mhwllheli, ni ellir cymharu pontwns Plas Heli a'r angorfeydd a chyfleusterau a oedd yn yr Hafan.

Mewn ymateb i sylw gan y cynrychiolydd o ran defnydd o dir y Cyngor ar gyfer carafanau a chodi tal am barcio yn y maes parcio pan fo digwyddiad ymlaen ym Mhlas Heli, nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod digwyddiadau yn dod a budd economaidd i'r ardal a bod angen darpariaeth llety ar gyfer y digwyddiadau. Eglurodd bod trefniadau achlysurol rhwng y Cyngor a Phlas Heli Cyf o ran defnydd o'r tir dan sylw fel safle carafanau pan gynhelir digwyddiad. Nododd bod y maes parcio o dan reolaeth Plas Heli Cyf a'i fod yn briodol iddynt godi tâl am barcio.

Nododd cynrychiolydd Plas Heli ei fod wedi bod yn dymor eithaf da o ran Plas Heli gydag amryw o ddigwyddiadau. Eglurodd bod Plas Heli yn cael ei redeg gan wirfoddolwyr a bod gan Plas Heli Cyf drosiant o oddeutu £0.5m y flwyddyn. Nododd bod Plas Heli yn bwysig i Bwllheli gan ei fod yn denu nifer fawr o ymwelwyr a chystadleuwyr gan ddod a budd i'r economi leol.

Nododd cynrychiolydd Cymdeithas Perchnogion Cychod Pwllheli a'r Cylch ei fod yn croesawu bod ymwelwyr yn cael eu denu i'r ardal gan Plas Heli ond ei fod yn bwysig bod y cwmni yn sefyll ar ei draed ei hun. Cyfeiriodd at wybodaeth a dderbyniodd gan y Cyngor o dan gais rhyddid gwybodaeth o'r nifer o grantiau roedd Plas Heli Cyf wedi eu derbyn. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod y grantiau yn gyfraniadau ar

gyfer cynnal digwyddiadau a bod un cynllun yng Nghynllun Strategol y Cyngor yn benodol ar gyfer cynnal digwyddiadau mawr yn y Sir.

Nododd cynrychiolydd Cymdeithas Perchnogion Cychod Pwllheli a’r Cylch bod cychod pysgota ar pontwns Plas Heli lle na ddylent fod a’r angen i edrych ar ostyngiad i ffioedd yr harbwr allanol ar gyfer pobl leol er mwyn sicrhau defnydd o’r angorfeydd. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai’n trafod y mater o ran y cychod pysgota efo Plas Heli Cyf ac fe ellir ystyried gostyngiad posib ar ffioedd yr harbwr allanol i bobl leol fel rhan o’r adolygiad ffioedd yn 2019/20.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn yr adroddiad.**

**7. DIOGELWCH HARBWR**

Rhoddwyd cyfle i aelodau nodi unrhyw fater o ran diogelwch harbwr.

Cyfeiriodd cynrychiolydd Cymdeithas Perchnogion Cychod Pwllheli a’r Cylch at ddigwyddiad lle aeth 3 cwch i drafferth hanner ffordd i fyny’r sianel. Nododd ei fod wedi eu cynorthwyo a’i fod wedi cymryd hanner awr i’w symud. Eglurodd bod ganddo luniau o’r digwyddiad a allai rannu efo’r gwasanaeth. Awgrymodd y byddai’n synhwyrol hysbysu morwyr ni ddylid dod i mewn i’r sianel awr neu dwy awr cyn i’r llanw droi nes gwneir y gwaith carthu.

Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei ddiolchiadau i’r cynrychiolydd am gynorthwyo’r morwyr. Atgoffodd yr aelodau y sefydlwyd trefn yn y cyfarfod diwethaf o ran cofnodi digwyddiadau o gychod yn taro’r gwaelod drwy lenwi ffurflen oedd ar gael yn swyddfa’r Hafan. Nododd ei fod yn annog unigolion i wybyddu swyddfa’r Hafan o unrhyw ddigwyddiad o’r fath.

Nododd cynrychiolydd Cymdeithas Cychod Harbwr Pwllheli bod yr almanac yn nodi bod mynediad 24 awr i’r sianel. Ychwanegodd bod digwyddiadau o’r fath yn rhoi enw gwael i Bwllheli.

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fe gysylltir â Reeds ac McMillans o ran nodi yn yr almanac y dylai ymwelwyr gysylltu efo swyddfa’r Hafan ond efallai bod yr almanac ar gyfer 2019 wedi ei gyhoeddi eisoes. Mewn ymateb i sylw gan aelod, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod radio VHF yr Hafan ar agor 24/7 er bod adegau nad oedd aelod o staff yn bresennol yn y swyddfa.

Awgrymodd cynrychiolydd Cymdeithas Perchnogion Cychod Pwllheli a’r Cylch y dylai staff fod yn bresennol yn y swyddfa am y 2 awr lle'r oedd y marc dŵr isel a gorllanw.

Tynnodd cynrychiolydd Cymdeithas Perchnogion Cychod Pwllheli a’r Cylch sylw bod unigolion yn parhau i oryrru cychod a beiciau dŵr yn yr ardal ger y cyn swyddfa ac yn enwedig rhwng 5pm a 6pm. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei ddymuniad i unrhyw un a oedd yn dyst i unigolion yn goryrru i wneud nodyn o rif cofrestru’r bad a’i gyflwyno i’r swyddfa yn fuan ar ôl y digwyddiad. Ychwanegodd bod y ddarpariaeth camerâu Teledu Cylch Cyfyng wedi ei wella a gyda holl ddefnyddwyr yn cofrestru ac yn arwyddo datganiad fe ellir cymryd camau erlyn yn erbyn unigolion a oedd yn torri’r rheolau cyflymder.

Mewn ymateb i sylw pellach gan gynrychiolydd Cymdeithas Perchnogion Cychod Pwllheli a’r Cylch, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig o ganlyniad i’r tywydd anhygoel yn yr Haf bod niferoedd sylweddol wedi defnyddio’r harbyrau gan olygu mwy o bwysau gwaith ar swyddogion o ran rheolaeth cychod a hel sbwriel.

**PENDERFYNWYD nodi’r wybodaeth.**

**8. RHAGLEN CARTHU'R HARBWR**

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned a oedd yn rhoi diweddariad ar raglen carthu'r harbwr. Eglurodd y disgwylwyd presenoldeb swyddog o Ymgynghoriaeth Gwynedd yn y cyfarfod i fanylu ar y rhaglen, ond yn anffodus nid oedd yn bresennol. Rhannodd daflen a oedd yn manylu ar y gwaith ac yn nodi'r amserlen.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed rhoi'r deunydd a dynnir o fasn yr harbwr yn syth i draeth Abererch, eglurodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod gormod o laid yn y deunydd a dynnir o'r basn. Ychwanegodd, yn unol â'r awgrym a wnaed yn y cyfarfod diwethaf, y bwriedir pwmpio'r tywod o'r sianel dros y morglawdd. Nododd y byddai gwneud hyn yn lleihau'r broblem o ran gwaddod i'w waredu ac yn debygol o leihau costau. Nododd pe byddai'r gwaith pwmpio yn llwyddiannus gellir rhoi ystyriaeth i opsiynau o ran lledu a dyfnhau'r sianel.

Nododd cynrychiolydd Cymdeithas Perchnogion Cychod Pwllheli a'r Cylch bryder o ran risg iechyd a diogelwch yn deillio o bwmpio'r tywod i draeth Abererch. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned i leihau'r risg y bwriedir cwblhau'r gwaith pwmpio yn ystod y gaeaf gan osod bwiau yn yr ardal.

Nododd cynrychiolydd Plas Heli bod yr erydiad i'r arfordir yn ardal Carreg y Defaid yn cychwyn lle'r oedd y morglawdd yn gorffen ac fe fyddai ychwanegu ato yn lleihau'r gwaith carthu yng ngheg yr Harbwr. Awgrymodd y dylid trafod y mater efo Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ymgynghoriaeth Gwynedd. Nododd mai'r unig opsiwn oedd atgyfnerthu ac ymestyn Grwyn y Crud.

Eglurodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod angen bod yn bragmatig a chwblhau'r gwaith brys gan y byddai datblygiadau pellach yn golygu gwaith amgylcheddol a fyddai'n ymestyn yr amserlen.

Nododd cynrychiolydd Cymdeithas Masnachwyr Morwrol ei fod yn croesawu bod y gwaith yn cael ei gwblhau ac fe ddylid ystyried anfon y rhaglen waith at gyn defnyddwyr Harbwr Caergybi.

Nododd aelod bod y rhaglen waith yr hysbyseb gorau i ddenu mwy o ddefnyddwyr i Bwllheli.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn yr adroddiad.**

**9. CYNLLUNIAU ARFAETHEDIG AR GYFER GORSAF BAD ACHUB NEWYDD**

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r cyflwyniad gan gynrychiolydd Sefydliad y Bâd Achub. Nododd y byddai'r adeilad newydd yn galluogi i'r Bâd Achub gael ei lansio yn syth i'r dŵr. Hysbysodd y Pwyllgor bod cais cynllunio wedi ei gyflwyno ar gyfer yr orsaf newydd.

Croesawyd Clive Moore (Sefydliad y Bâd Achub) i'r cyfarfod. Rhoddodd gyflwyniad i'r aelodau gan ddangos y cynlluniau. Eglurodd bod Pwllheli wedi ei ddethol gan Sefydliad y Bâd Achub i gael cwch newydd, oherwydd maint y cwch roedd yn angenrheidiol i gael adeilad newydd. Nododd nad oedd yn bosib cael adeilad a oedd yn cyd-fynd â'r gofynion ar y safle presennol. Eglurodd bod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda'r Cyngor o ran lleoli'r adeilad newydd ar dir wrth ymyl Plas Heli, a bod y trafodaethau yn symud yn eu blaen.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau, ymatebodd i'r cwestiynau gan nodi'r prif bwyntiau canlynol:

- Bod yr adeilad presennol ar les i Sefydliad y Bâd Achub gan y Cyngor ac fe fyddai'r adeilad yn trosglwyddo yn ôl i'r Cyngor. Nid oedd yr adeilad yn adeilad cofrestredig.

- O ran uchder yr adeilad newydd, mi fyddai ychydig yn is nag adeilad Plas Heli.
- Byddai strip concrid tuag at lle'r oedd y dwnan yn lefelu.
- Byddai'r adeilad yn bwrpasol ar gyfer y defnydd gyda chyfleusterau hyfforddi yn rhan o'r adeilad.
- O ran amserlen, bwriedir cychwyn y gwaith yn Mai 2019 ac fe fyddai'n cymryd cyfnod o flwyddyn i'w adeiladu. Estynnir gwahoddiad i aelodau'r Pwyllgor i ymweld â'r adeilad newydd.

Nododd aelodau eu cefnogaeth i'r bwriad gan groesawu'r buddsoddiad a fyddai'n dod a budd i Plas Heli a'r Hafan.

Nodwyd diolch am y cyflwyniad.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

## 10. ADOLYGIAD HAFAN A HARBWR PWLLHELI

Derbyniwyd cyflwyniad gan yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned yn rhoi diweddariad ar adolygiad model rheoli ar gyfer yr Harbwr a'r Hafan. Atgoffwyd yr aelodau y rhoddwyd cyflwyniad yn y cyfarfod blaenorol, ar 20 Mawrth 2018, ar gam cyntaf yr adolygiad. Rhoddwyd diweddariad o ran cam un, y rhestr fer o fodelau rheoli posib ynghyd â'r camau nesaf. Nodwyd y bwriedir gorffen cam dau, lle gwneir gwaith manwl i asesu yr opsiynau a nodwyd yn y rhestr fer a datblygu achos busnes amlinellol, erbyn diwedd mis Mawrth 2019. Eglurwyd bod rhaglen mewn lle i ymateb i'r adborth a dderbyniwyd yn ystod y trafodaethau efo budd-ddeiliaid. Nodwyd y bwriedir llythyru efo pawb a gymerodd rhan yn y trafodaethau i roi diweddariad, erbyn diwedd y mis.

Mewn ymateb i ymholiad gan gynrychiolydd Sefydliad y Bâd Achub yng nghyswllt Ardal Glandon, nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod cyn adeilad y Clwb Hwylio ar brydles i Plas Heli Cyf a gwnaethpwyd cais i Croeso Cymru o ran gwella arwyneb y maes parcio.

Nododd cynrychiolydd Plas Heli bod Plas Heli Cyf yn edrych ar yr opsiynau o ran datblygu byncws yng nghyn adeilad y Clwb Hwylio ond fe fyddai'r datblygiad yn ddibynnol ar grantiau sylweddol. Mewn ymateb i gwestiwn, nododd y byddai'r bwriad yn hyfyw gyda grantiau ac nid oedd digon o lety ar gael yn yr ardal.

Mewn ymateb i ymholiad, nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod datblygwr wedi ei benodi o ran datblygiad gwesty ar Cae Ceffyl a'u bod mewn trafodaethau efo cwmni cenedlaethol. Ymhelaethodd bod Cae Ceffyl wedi ei gynnig fel safle o ran ymgyrch gwestai Croeso Cymru.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

## 11. CYFARFOD NESAF

Nodwyd y caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 19 Mawrth, 2019.

Dechreuodd y cyfarfod am 6.00pm a daeth i ben am 8.25pm

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli** |
| **DYDDIAD** | **19 Mawrth 2019** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheolaethol yr Harbwr** |
| **AWDUR** | **Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig** |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol a gynhaliwyd ar yr 17eg Hydref 2017 cyflwynwyd adroddiad yn cadarnhau Cylch Gorchwyl Pwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau. Mae'r cyfansoddiad (copi pellach ynghlwm) yn cadarnhau Strwythur Aelodaeth y Pwyllgorau Ymgynghorol ac mae yn anorfod na fod gwyriad o'r cyfansoddiad.

1.2 Cytunwyd mai prif swyddogaeth y Pwyllgor byddai er ystyried, trafod a chynghori ar faterion yn ymwneud â rheolaeth, diogelwch a datblygiad yr Harbwr ac i swyddogion dderbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion yn ymwneud a Harbwr Pwllheli yn ei gyfanrwydd.

1.3 Yn ystod 2014 penderfynwyd gan Gabinet y Cyngor i gefnogi'r Pwyllgorau Ymgynghorol a chadarnhawyd byddai'r Pwyllgorau Harbyrau Pwllheli, Aberdyfi ac Abermaw yn cynnwys: -

- Hyd at 4 Aelod Lleol Cyngor Gwynedd
- Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd sydd yn dal Portffolio'r Awdurdod Harbwr
- Un Aelod Cyngor Tref/Cyngor Cymuned
- Hyd at saith aelod arall i gynrychioli gwahanol fuddiannau defnyddwyr yr harbwr

Yn ddiweddar fe fu i'r Cyngor ohebu gyda phob cynrychiolydd mudiadau'r harbyrau a enwir uchod yn atgoffa o'r gofyn fod mudiadau yn enwebu cynrychiolydd am y flwyddyn sydd i ddod gan hefyd anfon copi o'r cyfansoddiad a chofnodion o gyfarfod blynyddol y grwpiau perthnasol. Bydd yn hanfodol bod y wybodaeth wedi ei gyflwyno i'r Cyngor yn flynyddol ble yn berthnasol.

Mae rhestr o'r Aelodau cyfredol wedi eu nodi ar y rhaglen.

## 2 Cod Morwrol Diogelwch Porthladdoedd

2.1 Gofynnwyd gan y Pwyllgorau Ymgynghorol bod eitem ar y Cod Diogelwch yn destun eitem agenda pob cyfarfod o'r Pwyllgorau Ymgynghorol. Fel nodyn atgoffa, ym mis Tachwedd 2016 fe fu i'r Adran Drafnidiaeth o'r Llywodraeth gyhoeddi addasiadau i'r Cod Diogelwch Porthladdoedd. Mae copiiau o'r cod newydd eisoes wedi ei ddosbarthu i holl Aelodau'r Pwyllgorau Ymgynghorol ac mae copi hefyd ar gael ar safle we'r MCA. Mae'r Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig yn adolygu'r Cod Diogelwch ar gyfer harbyrau bwrdeistrefol Gwynedd yn rheolaidd er sicrhau fod holl sustemau diogelwch ein harbyrau yn cyd-fynd gyda gofynion y cod a disgwyliadau ein cwsmeriaid a hefyd er cydymffurfio a gofynion Iechyd a Diogelwch.

2.2 Mae Adran Trafnidiaeth y Llywodraeth wedi adolygu ac wedi cyhoeddi canllawiau 'Ymarferiadau da Mewn Gweithgareddau Harbyrau' sydd yn gysylltiedig gyda'r Cod Diogelwch Morol ac mae copi o'r ddogfen ar gael i Aelodau ar gyflwyniad cais i'r gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig.

2.3 Rhwng y 19eg ac yr 21ain Medi 2017, ac yn fwy diweddar ar y 5ed a 6ed Fawrth 2019 fe gynhaliwyd arolygiad trylwyr gan Brif Archwiliwr Asiantaeth Gwylwyr y Glannau o drefniadau a sustemau diogelwch presennol harbyrau bwrdeistrefol Gwynedd er sicrhau cydymffurfiaeth lawn a'r Cod Diogelwch Porthladdoedd. Roedd yr ymweliad yn ddilyniant i'r ymweliad ym mis Medi 2017 gan yn ystod yr ymweliad blaenorol roedd rhai elfennau o'r Cod angen sylw pellach.

2.4 Barn lafar a gyflwynwyd gan yr Archwiliwr oedd bod y Cyngor yn cyd-fynd gyda'r gofynion mewn ffordd broffesiynol a threfnus. Roddwyd sylw gallai'r Cyngor gyflwyno man welliannau ar rhai elfennau. Fe fydd copi o'r adroddiad ysgrifenedig yn cael ei gyhoeddi unwaith bydd yr Archwiliwr wedi rhyddhau ei adroddiad. Yn ystod yr ymchwiliad bu i'r Archwiliwr ymweld ag harbyrau Abermaw, Porthmadog a Phwllheli. Cadarnhawyd na fyddai'r Archwilwyr yn ail ymweld â harbyrau Gwynedd yn y dyfodol agos oni bai bod y Cyngor yn cyflwyno gwahoddiad iddynt neu mewn achos difrifol sydd yn cyfiawnhau archwiliadau uwch.

2.5 Fe fu i'r Archwiliwr fynychu cyfarfod o Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog ble wahoddwyd cynrychiolwyr Pwyllgorau Ymgynghorol Aberdyfi, Abermaw a Pwllheli i'r cyfarfod. Fe fynychwyd y cyfarfod gan 1 Aelod Harbwr Abermaw ac 1 Aelod Harbwr Pwllheli. Roedd y cyflwyniad a rhoddwyd gan yr Archwiliwr yn galluogi Aelodau i dderbyn gwybodaeth gan yr Archwilwyr ynglŷn â phrif faterion y Cod Diogelwch a'r disgwyliad ar y Cyngor i gydymffurfio gyda'r Cod Diogelwch.

2.6 Pwysleisir na gyflwynwyd unrhyw rybudd o welliant yn ymwneud a materion diogelwch difrifol neu ddiffygion yn yr harbyrau. Nodwyd ganddynt fod cyfle i wella ar daclusrwydd oddi amgylch cei harbwr Abermaw gan fod yna nwyddau a rhaffau wedi eu cadw ar y cei mewn ffordd a allasai achosi risg. Ni chyflwynwyd sylw ar safonau a safon Diogelwch Pwllheli neu Porthmadog. Cyflwynwyd sylw ynglŷn â lled a dyfnder y sianel fordwyo yn Harbwr Pwllheli.

2.7 Er bod y Cod Diogelwch Porthladdoedd yn cael ei adolygu yn rheolaidd gan y gwasanaeth mae yn anorfod atgoffa Aelodau o'r Pwyllgorau Ymgynghorol o'r ddyletswydd arnynt i gyflwyno sylwadau ar addasrwydd y Cod Diogelwch ac i dderbyn sylwadau ar drefniadau gwaith yr harbyrau fel gallai'r Cod Diogelwch gael ei adolygu er sicrhau bod yn berthnasol i weithgareddau'r harbwr, priodoldeb lleoliadau cymhorthion mordwyo, diogelwch cyffredinol a gwaith dydd i ddydd yr harbwr.

2.8 Nid oes unrhyw fater neu achos o bryder wedi ei gyflwyno at sylw'r gwasanaeth gan Aelodau o'r Pwyllgor Harbwr yn ystod 2018 sydd yn gysylltiedig â chyfrifoldebau a dyletswyddau statudol yr Harbwr.

**3 Materion Ariannol**

3.2 Bydd crynodeb o gyllidebau'r Harbwr a'r Hafan ynghyd a sefyllfa ariannol gyfredol hyd at ddiwedd cyfnod diwedd Chwefror 2019 yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod.

3.3 Yn ystod y cyfnod, bu'n ofynnol i ymrwymo adnodd cyllid ar gyfer y canlynol: -

- Elfennau Carthu
- Cynnal a chadw Cymhorthion Mordwyo a Llusernau
- Cynnal a chadw angorfeydd y Cyngor.

- Gwaredu Fflachiau
- Hyfforddiant Rheoli Llygredd Olew
- Cynnal a chadw sustem Teledu Cylch Cyfyng.

**4 Ffioedd a Thaliadau 2019/20**

4.1 Atodir taenlen ffioedd arfaethedig Harbwr Pwllheli ac Yr Hafan. Atodir hefyd daenlen ffioedd lansio cychod a Badau Dwr Personol ar gyfer 2019. Rhagwelir bydd chwyddiant Harbyrau yn gyffredinol ar gyfer 2019/20 yn 3.52% gyda chwyddiant Hafan yn 3.07%. Bydd chwyddiant yr Harbwr Allanol yn 3.65%

4.2 Er cwrdd â her cyllideb a tharged incwm y gwasanaeth argymhellir fod ffioedd Harbwr Pwllheli ac Yr Hafan yn cynyddu 3% ar gyfartaledd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20. Ni fydd cynnydd yn ffioedd angora yn yr Harbwr Allanol. Golygai bydd targed incwm yr Hafan yn cynyddu £38,980 gyda tharged incwm yr harbwr Allanol yn cynyddu £1,870 ar gyfer 2019/20.

4.3 Mae cynnydd chwyddiant Morwrol a Pharciau Gwledig 2019/20 fel a ganlyn: -

- Traethau - 4.23%
- Hafan - 3.07%
- Harbyrau - 3.52%
- Doc Fictoria - 2.70%
- Parc Padarn - 4.64%
- Parc Glynllifon - 5.07%

**5 Digwyddiadau**

5.2 Croesawir adroddiad llafar ar brif ddigwyddiadau a gynhaliwyd ym Mhlas Heli yn ystod 2018 gan gynrychiolydd Plas Heli/Clwb Hwylio Pwllheli.

**6 Carthu**

